

Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026

Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026

Ynghylch ein rhaglen waith

- 1 Mae strategaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2022-2027 yn cynnwys canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni 'rhaglen archwilio strategol, ddeinamig ac o ansawdd uchel', yn ogystal â 'dull gweithredu effeithiol wedi'i dargedu o ran cyfathrebu a dylanwadu'.
- 2 Yng ngwanwyn 2022, buom yn ymgynghori ar ein rhaglen waith. A ninnau wedi ein llywio gan ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, a'n dadansoddiad o'r Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn 2021, rydym wedi bod yn llunio rhaglen fynegol o waith archwilio perfformiad sy'n cyd-fynd â'n harchwiliad blynyddol o gyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Drwy nodi gorwel tymor canolig cliriach a thynnu ynghyd wahanol rannau o'n rhaglen waith gyffredinol, ein nod yw gwella ein hymchwil a'n datblygiad cyffredinol, a phrydlondeb ac effaith ein gwaith archwilio.
- 3 Bydd ein rhaglen archwilio ar gyfer 2023-2026 yn canolbwyntio ar bedair thema:



Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb



Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur



Cydnherthedd y gwasanaeth a mynediad



Gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoli'n dda

Ynghylch y papur hwn

- 4 Rydym wedi paratoi'r papur hwn cyn dechrau'r gwaith o ddatblygu ein gwefan a'r wybodaeth ynddi am ein rhaglen waith i wella ein hymgysylltiad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ynghylch ein gwaith.
- 5 Mae'r papur yn canolbwyntio ar ein harchwiliadau a'n hastudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau o lywodraeth leol, ac yn paratoi adroddiadau cryno o'r canfyddiadau o waith archwilio lleol ar draws sawl GIG, llywodraeth ganolog a/neu gyrff llywodraeth leol. Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion o bryder gan y cyhoedd a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol drwy ohebiaeth. Bydd ein gwaith yn cynnwys ystyried sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i 'phum dull o weithio' yn cael eu defnyddio.
- 6 Mae'r pynciau a nodwyd isod fel gwaith ar y gweill ar 1 Ebrill 2023, neu i ddechrau yn ystod 2023-24, yn adlewyrchu Atodiad 2 o'n Cynllun Blynyddol 2023-24. Gall cynlluniau ar gyfer allbynnau eraill ddod i'r amlwg wrth i'n rhaglen waith esblygu ar lefel genedlaethol a lleol, gan gynnwys gwaith dilynol a gwaith archwilio lleol sydd eisoes wedi'i gynllunio fel rhan o raglenni'r blynyddoedd blaenorol.
- 7 Yn ogystal, bydd ein cynlluniau archwilio lleol yn cynnwys gweithiau newydd eraill mewn cyrff unigol sydd i'w cyflawni yn ystod 2023-24:
 - Ar gyfer y prif gynghorau: mae adolygiadau lleol yn cynnwys rhoi sylw i wastraff ac ailgylchu, gwasanaethau cynllunio, Safon Ansawdd Tai Cymru, rheoli perfformiad ac adrodd, gwrth-dwyll a chwythu'r chwiban, rhaglenni trawsnewid, ffyrdd a thrafnidiaeth, trefniadau i gefnogi'r egwyddor datblygu cynaliadwy, llywodraethiant corfforaethol, craffu, a diogelu.

- Ar gyfer cyrff y GIG: fel estyniad i'n gwaith asesu strwythuredig blynyddol ar draws yr holl gyrff byddwn yn ymgymryd ag ymchwiliadau dyfnach i ddatblygiadau digidol. Er bod trefniadau cynllunio ar gyfer prosiectau pwrpasol lleol yn parhau, mae meysydd i ganolbwyntio arnynt sy'n dod i'r amlwg mewn cyrff unigol yn cynnwys dilyn argymhellion archwilio blaenorol mewn meysydd megis gofal sylfaenol, llywodraethu ansawdd, codio clinigol a gwasanaethau cleifion allanol, defnyddio cyllid cymorth strategol mewn sefydliadau uwchgyfeirio, a chadernid trefniadau llywodraethu gweithredol.
- Ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub: bydd ein rhaglen archwilio leol yn cynnwys ystyried dulliau o dargedu gwaith atal tân.
- Ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol: bydd ein rhaglen archwilio leol yn cynnwys ystyried trefniadau ar gyfer sicrhau bod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymweld.

8 Rydym hefyd wedi rhestru isod bynciau dangosol yr ydym wedi'u nodi ar gyfer gwaith cenedlaethol posibl i ddechrau yn ystod 2024-25 a 2025-26, y disgwylir i rai ohonynt wedyn lifo i mewn i 2026-27. Byddwn yn ailymweld â'r cynlluniau dangosol hyn fel rhan o'n cylch cynllunio blynyddol ac yn ystyried unrhyw feysydd o ddiddordeb / pryder sy'n dod i'r amlwg ac yn asesu risg yn barhaus.

Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 2023-2026

Gwaith sy'n mynd rhagddo ar 1 Ebrill 2023

Llywodraethu ansawdd y GIG	Crynodeb o sut mae trefniadau llywodraethu ansawdd cyrff y GIG yn cefnogi gofal o ansawdd da a gofal diogel, gan adeiladu ar waith archwilio lleol.
Cyd-bwyllgorau Corfforedig	Pa un a yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu trefniadau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithio rhanbarthol.
Rheoli asedau a'r gweithlu mewn llywodraeth leol	Sut mae dulliau strategol cynghorau o ran rheoli'r gweithlu ac asedau yn cefnogi eu gallu i drawsnewid, addasu, a chynnal y gwaith o gyflenwi gwasanaethau yn y tymor byr a thymor hwy.
Manteisio i'r eithaf ar arian gan yr UE	Cynnydd wrth fanteisio i'r eithaf ar dynnu arian yr UE i lawr o dan y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig erbyn diwedd Rhagfyr 2023.
Sero net (trosolwg ar draws y DU)	Trosolwg o drefniadau polisi a chyflawni ar draws gwahanol rannau o'r DU, ac mewn partneriaeth â chyrff archwilio eraill y DU.
Gofal heb ei drefnu	Adolygiad system gyfan, a gynhelir fesul cam, a fydd yn archwilio effeithiolrwydd trefniadau rhyddhau cleifion mewn ysbytai, rheoli'r galw am ofal heb ei drefnu ac effeithiolrwydd trefniadau arweinyddiaeth genedlaethol.

Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon	Datblygiadau ers <u>ein hadroddiad ym mis Tachwedd 2020 ar y pwnc hwn</u> , ac adroddiad gan <u>Bwyllgor Deisebau'r Senedd ym mis Mawrth 2021</u> .
Gweithlu'r GIG	Dulliau gweithredu cyrff y GIG o ran cynllunio'r gweithlu a dwyn data allweddol ynghyd.
Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – adfywio tir llwyd	Y camau gweithredu mae cynghorau lleol yn eu cymryd i gefnogi ac annog eiddo annomestig gwag a safleoedd tir llwyd gwag sy'n cael eu haddasu i greu cartrefi neu at ddibenion eraill.
Diogelwch adeiladau	Sut mae cyrff cyhoeddus cyfrifol yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol i sicrhau bod adeiladau yng Nghymru yn ddiogel, a hynny yn erbyn cefndir Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 y DU.
Gwasanaethau ffoaduriaid Wcreinaidd	Sut mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, wedi ymateb i gefnogi ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru.
Llywodraethu/goruchwylio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	P'un a oes gan awdurdodau drefniadau llywodraethu effeithiol sy'n cefnogi canlyniadau da i ddinasyddion.
Strategaeth ddigidol ym maes llywodraeth leol	Ymagwedd strategol y cynghorau at dechnoleg ddigidol, gan gynnwys cymhwyso'r egwyddor a threfniadau datblygu cynaliadwy ar gyfer sicrhau gwerth am arian.

Defnyddio gwybodaeth am berfformiad mewn llywodraeth leol	Pa un a yw defnydd cynghorau o ddata perfformiad yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau eu gweithgareddau i reoli perfformiad yn effeithiol.
Gwasanaethau canser	Archwilio gwahanol gamau llwybr cleifion ac adeiladu ar waith archwilio lleol yn lechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch adfer gwasanaethau sgrinio.
Tai fforddiadwy	Trefniadau i gyflawni targed Llywodraeth Cymru a gwireddu manteision ehangach, cynnydd hyd yma a risgiau yn ymwneud â chyflawni, a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
Teithio llesol	Cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru a sut mae cyllid cysylltiedig yn cael ei reoli a'i ddefnyddio.



Gwaith arall yr ydym yn bwriadu ei ddechrau yn ystod 2023-24

Cynllunio cyfalaf a rheoli rhaglenni	Rhaglen waith, yn cwmpasu dull gweithredu cyffredinol Llywodraeth Cymru o ran cyfalaf a seilwaith, gwaith archwilio lleol ar gynllunio cyfalaf a gwaith ar raglenni cyfalaf penodol, gan gynnwys gwaith pellach posibl ar <u>raglen fuddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a cholegau yn dilyn ein hadroddiad yn 2017</u> .
Heriau i'r sector diwylliannol	Cwmpasu Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru i edrych ar sut maent yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.
Digartrefedd	Archwilio sut mae gwasanaethau'n cydweithio i ddatblygu'r ymateb i ddigartrefedd, wedi'i lywio'n rhannol gan <u>ein gwaith blaenorol ar bobl sy'n cysgu allan</u> , ac yng nghyd-destun <u>cynllun gweithredu ar ddigartrefedd 2021-2026 Llywodraeth Cymru</u> .
Mynd i'r afael â dirywiad mewn bioamrywiaeth	<p>Golwg lefel uchel ar sut mae cyrff archwiliedig yn ymateb i'r ddyletswydd fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau o dan <u>Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016</u>.</p> <p>Hefyd, adolygiad mwy penodol i archwilio camau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cymryd ynghylch safleoedd daearol, dŵr croyw a/neu forol a warchodir.</p>

Ailgydbwysu gofal a chymorth	Rhaglen waith sy'n edrych ar wahanol agweddau ar <u>agenda Ailgydbwysu Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru</u> a ffrydiau ariannu cysylltiedig, gan gynnwys y <u>Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu Iechyd a Gofal Cymdeithasol</u> .
Mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG	Gwaith archwilio lleol ar draws y byrddau iechyd yn dilyn <u>ein hadroddiad trosolwg cenedlaethol ar yr ôl-groniad mewn gofal wedi'i gynllunio</u> ym mis Mai 2022.
Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	Ystyried costau <u>sy'n gysylltiedig â rhaglen trawsnewid Llywodraeth Cymru</u> a heriau ynghylch ei gweithredu.
Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac uwch – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Gwaith cynnar i edrych ar waith cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy gan <u>y Comisiwn sydd newydd ei greu wrth iddo ddod yn gwbl weithredol o 1 Ebrill 2024</u> . Gallai hyn gynnwys myfyrio ehangach ar heriau ariannol ac eraill i'r sectorau yn dilyn ein <u>Darlun o Addysg Uwch ac Addysg Bellach</u> mis Hydref 2021.
Llywodraethiant Awdurdodau Tân ac Achub	Ystyried a oes gan awdurdodau drefniadau llywodraethiant effeithiol sy'n cefnogi canlyniadau da i ddinasyddion (gan ddefnyddio dull tebyg i'n gwaith presennol yn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol - gweler uchod).

Yr uwch wasanaeth cyhoeddus	Gan adeiladu ar waith arall yr ydym wedi bod yn ei wneud ar faterion gweithlu'r gwasanaeth cyhoeddus, byddai'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag uwch arweinyddiaeth, a allai gynnwys materion sy'n cynnwys cyflog a secondiadau, rheoli perfformiad, ymadawiadau, cynllunio olyniaeth, a datblygu arweinyddiaeth.
Cynaliadwyedd ariannol mewn llywodraeth leol	Gwaith archwilio lleol ar draws y 22 brif gyngor i ailedrych ar gyllid llywodraeth leol a dulliau gweithredu o ran cynaliadwyedd ariannol, gan ystyried cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy hefyd. Byddai'r gwaith hwn yn adeiladu ar themâu yn ein <u>hadroddiad cryno cenedlaethol ym mis Medi 2021</u> .
Comisiynu a rheoli contractau mewn llywodraeth leol	Gwaith archwilio lleol i ystyried sut mae trefniadau prif gynghorau ar gyfer comisiynu, a rheoli contractau dilynol pryd y dewisir model cleient-contractiwr, yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Pynciau dangosol ar gyfer gwaith i'w ddechrau yn 2024-25 neu 2025-26

Lleihau bylchau cyrhaeddiad addysgol	Gan barhau yn sgil y materion a grynhoir yn <u>ein hadroddiad Darlun o Ysgolion ym mis Hydref 2021</u> , gallai'r gwaith hwn archwilio amrywiaeth ar draws Cymru ac arfer da, yn ogystal ag effaith y cyllid sy'n gysylltiedig ag amddifadedd.
Heriau iechyd y cyhoedd	Archwilio prif heriau iechyd y cyhoedd ein hoes, gyda phwyslais posibl ar fynd i'r afael â gordewdra neu gynllunio ar gyfer pandemig iechyd yn y dyfodol.
Datblygiadau economaidd ôl-Brexit	Archwilio o bosib cymorth Llywodraeth Cymru – ariannol ac arall – ar gyfer sectorau yr effeithir arnynt fwyaf gan Brexit, megis porthladdoedd a chwmnïau sy'n canolbwyntio ar allforio.
Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol	Adeiladu ar ein <u>hadroddiad ar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb</u> ym mis Medi 2022, i ystyried sut mae cyrff cyhoeddus yn integreiddio'r <u>ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010</u> i'w prosesau gwneud penderfyniadau ers iddi ddod i rym ym mis Mawrth 2021.
Anghydraddoldebau iechyd	Yn gysylltiedig â gwaith ar heriau iechyd y cyhoedd, ystyried y materion sy'n effeithio ar gydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau a'r effaith ehangach ar unigolion, cymunedau a'n systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

Yr economi sylfaenol	Archwilio effaith polisi a chefnogaeth Llywodraeth Cymru ynghylch yr economi sylfaenol a'i darpariaeth o nwyddau a gwasanaethau sylfaenol y mae cymdeithas yn dibynnu arnynt.
Camau dilynol sero net	Camau dilynol o ran materion sy'n berthnasol i'n hadroddiad ym mis Gorffennaf 2022 ar <u>barodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer carbon sero net erbyn 2030</u> . Mae'r gwaith hwn yn debygol o ganolbwyntio'n fanylach ar feysydd penodol sy'n peri pryder, fel cadernid trefniadau adrodd sero net cyrff cyhoeddus.
Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth	Adeiladu ar ein gwaith presennol ar Deithio Llesol i edrych ar feysydd cyflawni allweddol eraill ar gyfer <u>Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021</u> .
Datgarboneiddio tai	Archwilio cynnydd wrth ddatgarboneiddio tai ar draws gwahanol ddeiliadaethau, a darpariaeth ac effaith cyllid cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru.
Gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion	Ystyried problemau sy'n ymwneud â'r galw am wasanaethau iechyd meddwl a mynediad iddynt, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl cymunedol o bosibl.
Gofal sylfaenol – deintyddiaeth	Edrych ar y cynnydd gyda'r dull <u>strategol cenedlaethol</u> a mentrau amrywiol i wella mynediad, yn ogystal â'r contract deintyddol a'i effaith ar ddarpariaeth ddeintyddol y GIG yng Nghymru.

Y Fenter Twyll Genedlaethol (MTG) 2022-23	Adrodd yn hydref 2024 ar ganlyniadau <u>ymarfer diweddaraf yr MTG 2022-23</u> .
Llywodraethiant partneriaethau	Gan adeiladu o bosibl ar dystiolaeth o waith arall a/neu gamau dilynol yn sgil ein hadolygiad o <u>Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn hydref 2019</u> , gallai'r adolygiad hwn fyfyrto ar dirwedd gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru, gyda phwyslais posibl ar arfer da.
Cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy	Adrodd erbyn mis Mai 2025 ar ganfyddiadau o'n harchwiliadau o sut mae cyrff cyhoeddus a ragnodwyd o dan <u>Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</u> yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
Cyflawni'r Strategaeth Ddigidol i Gymru	Yn dilyn gwaith arall, gan gynnwys ein <u>hadroddiad ym mis Mawrth 2023 ar gynhwysiant digidol</u> , gwaith yr ydym wedi ei wneud ar seibergadernid, a gwaith archwilio lleol arall, byddai'r adolygiad hwn yn archwilio materion sy'n berthnasol i'r chwe chenhadaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi yn y <u>Strategaeth Ddigidol i Gymru</u> .
Heriau gweithlu'r sector cyhoeddus	Tynnu ynghyd ganfyddiadau o waith perthnasol arall a gefnogir, o bosibl, gan ambell waith dadansoddi data ychwanegol i ystyried heriau ynghylch cynllunio a rheoli'r gweithlu ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Caffael cyhoeddus	Adolygiad ar draws y sector cyhoeddus yn archwilio datblygiadau yn y dirwedd caffael cyhoeddus gan gynnwys, o bosibl, ystyriaeth gynnar o weithredu dyletswyddau newydd a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn ei <u>Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)</u> .
Darlun o wasanaethau cyhoeddus	Diweddariad i'n <u>dadansoddiad o'r Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021</u> a chyn diwedd cyfnod swydd yr Archwilydd Cyffredinol presennol yn haf 2026.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas (y llawr gwaelod a'r cyntaf)

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.